# COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYMRU
# CYNHALIWYD AR DDYDD IAU 14eg o Fedi 2022 am 10:00 am
# Un Canal Parade, Caerdydd.

| **Pwyllgor Cymru** | |
|---|---|
| Simone Lowthe Thomas | *Cadeirydd Pwyllgor Cymru* |
| Nicola Russell Brooks | *Aelod Pwyllgor Cymru* |
| Trystan Pritchard | *Aelod Pwyllgor Cymru* |
| Thomas Andreas | *Tîm Llais Ieuenctid Cymru* |
| Kate Young | *Aelod Pwyllgor Cymru* |
| **Staff** | |
| John Rose | *Cyfarwyddwr Cymru* |
| Rob Roffe | *Pennaeth Gwybodaeth a Dysgu* |
| Elizabeth Watson | *Cynorthwy-ydd Gweithredol* |
| James Eul | *Cyfieithydd ar y Pryd* |

## 1. CROESO

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Thomas Andreas a oedd yn ymuno â'r Pwyllgor fel Aelod o Dîm Llais Ieuenctid Cymru.

**Ymddiheuriadau**

1.2. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenllian Lansdown Davies a Fadhili Maghiya, Aelodau Pwyllgor Cymru, Andrew Owen a Ruth Bates, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

**Cofnodion o Gyfarfod Blaenorol y Pwyllgor ar 15fed o Fehefin 2022**

Cytunwyd ar y cofnodion o'r cyfarfod pwyllgor ar 15fed o Fehefin yn ffurfiol.

**Datganiadau Buddiant**

1.3. Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 2. DIWEDDARIAD PORTFFOLIO

2.1. Nododd y pwyllgor y diweddariad portffolio, gan amlygu:

i. Mae manylion ymateb Cymru i'r argyfwng costau byw bellach ar gael ar ein gwefan. Roedd Portffolio'r DU wedi neilltuo hyd at £2m o'u cyllideb i helpu gyda'r gwaith costau byw, sy'n golygu bod ein cyllideb ychwanegol i gefnogi'r ymateb costau byw bellach yn £4m
ii. Gwaith gwych gan Dîm Cymru.
iii. Y potensial i rannu papurau pwnc sy'n mynd i bwyllgor Pawb a'i Le.
iv. Bod pedwar aelod newydd wedi cael eu penodi i'r Bwrdd.
v. Cynnydd cadarnhaol i sefydlogi'r wefan.
vi. Mae ymweliadau llwyddiannus gan Weinidogion wedi cael eu cynnal, gyda mwy wedi'u cynllunio

**Cam gweithredu:** Rhannu papurau pwnc Pawb a'i Le gyda Phwyllgor Cymru. (EW)

## 3. CEFNOGI SYNIADAU GWYCH: UNITED WELSH HOUSING

3.1. Gwahoddwyd Pwyllgor Cymru i:

a) Nodi'r wybodaeth gefndirol a ddarparwyd am ddatblygiad y cynnig ariannu Cefnogi Syniadau Gwych.
b) Ystyried y ceisiadau ariannu a argymhellir gan United Welsh Housing Association Limited.
c) Nodi statws cynigion potensial Cefnogi Syniadau gwych yn y dyfodol

3.2. Nododd y pwyllgor fod y prosiect yn bwysig yn strategol ac fe fydd yn rhoi cymorth ymarferol i gefnogi pobl ifanc bregus sy'n ceisio sicrhau lle i fyw, gan leihau'r tebygolrwydd o ddigartrefedd. Gwnaethant fynegi pryder y dylai gwerthusiad o'r prosiect cyffredinol wedi cael ei ystyried o'r dechrau ond roeddent yn deall na fyddai'r ffynonellau ariannu a oedd wedi'u sicrhau wedi gallu talu am hyn. Gwnaethant adlewyrchu y bydd angen i'r prosiect ddatblygu cynlluniau lledaenu cryf, i rannu arferion da a gofynnwyd i hyn gael ei gryfhau wrth reoli grantiau.

3.3. Gan nodi na fyddent fel arfer yn ariannu costau gwerthuso unigol, ond yn cydnabod pwysigrwydd y prosiect, cytunodd y Pwyllgor i ddyfarnu'r swm llawn y gofynnwyd amdano.

## 4. CEFNOGI GWYTNWCH / CYNALIADWYEDD TRYDYDD SECTOR – ER GWYBODAETH A THRAFODAETH

4.1. Gwnaeth y papur hwn grynhoi nodweddion y Trydydd Sector yng Nghymru, ei amgylchedd polisi a'r heriau allweddol mae'n eu hwynebu. Adlewyrchodd ar gefnogaeth y Gronfa yn y gorffennol am Wytnwch Trydydd Sector a thrafod camau gweithredu potensial y gall y Gronfa eu cymryd i gefnogi Trydydd Sector cryfach yn y dyfodol.

4.2. Rhoddodd y papur drosolwg a beirniadaeth o gefnogaeth y Gronfa yn y gorffennol a oedd yn canolbwyntio ar wneud sefydliadau'n fwy gwydn ac mae'n ystyried effaith digwyddiadau diweddar ar sefydliadau trydydd sector, yn benodol pandemig Covid-19 ac yna'r argyfwng costau byw.

4.3. Adolygodd y pwyllgor y papur a thrafod y cynnwys. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

i. Amrywiaeth y trydydd sector yng Nghymru. Mae amrywiaeth eang o bwrpasau a maint yn golygu nad yw pob maint yn ffitio pawb.
ii. Cwestiynodd y Pwyllgor i ba raddau y mae sefydliadau yn defnyddio dulliau a chymorth sydd eisoes ar gael, fel gwiriwr cryfderau VCSE y Gronfa.
iii. Er bod ffynonellau cymorth yn bodoli, mae sawl sefydliad wedi blino ar ôl Covid ac yn cael trafferth gwybod beth sy'n bodoli y tu hwnt i'w ffynonellau arferol o gefnogaeth ac mae diffyg capasiti ganddynt i ystyried gwelliannau sefydliadol mwy hirdymor.
iv. Roedd gwahanol farn am b'un ai rôl y Gronfa yw darparu cymorth ychwanegol neu a yw darpariaeth ddigonol yn bodoli eisoes trwy ffynonellau ariannu eraill, gan gynnwys Cyrff Seilwaith a Busnes Cymru.
v. Cytunodd y pwyllgor y byddai angen trafodaeth bellach, a byddai'n fuddiol cael mewnbwn gan Aelodau'r Pwyllgor nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod.

## 5. MATERION, HERIAU AC ANGHENION PLANT – I'W NODI A'U TRAFOD

5.1. Croesawodd y pwyllgor yr adroddiad, a oedd yn manylu ar y problemau a'r heriau mwyaf dybryd sy'n wynebu plant a'u teuluoedd yng Nghymru; effaith y problemau a'r heriau hyn; anghenion plant a'u teuluoedd ac i ba raddau y mae eu hanghenion yn cael eu bodloni.

Amlinellodd yr adroddiad gyfleoedd posibl i'r Gronfa a rhai cwestiynau i Bwyllgor Cymru eu hystyried.

5.2. Nododd y pwyllgor fod hyn yn uchel ar yr agenda ar hyn o bryd, yn enwedig yn ystod yr adeg hon, gan nodi bod yr adroddiad wedi canolbwyntio ar yr heriau a wynebir o ran:

i. Bwlio
ii. Iechyd Meddwl
iii. Rhwystrau i weithgareddau chwarae a hamdden yn y Gymuned
iv. Darpariaeth gofal plant fforddiadwy
v. Tlodi plant

5.3. Nododd y pwyllgor mai canfyddiadau allweddol yr adroddiad oedd y problemau a wynebir gan blant a teuluoedd.

5.4. Dywedodd y Cadeirydd diolch am bapur manwl a chynhwysfawr gan ofyn y Pwyllgor am eu meddyliau cychwynnol.

5.5. Adlewyrchodd y Pwyllgor fod y cwricwlwm newydd sy'n trafod Iechyd Meddwl a Lles a chwestiynau am ba ddarpariaeth fydd hyn yn ei rhoi o hyn ymlaen mewn ysgolion i gefnogi plant a theuluoedd. Gwnaethant hefyd adlewyrchu ar effaith costau byw ar anghenion sylfaenol fel darparu mannau diogel a chynnes.

5.6. Yn sgil graddau'r angen, roedd hi'n bwysig osgoi ceisio gwneud popeth, gan gydbwyso'r awydd i fodloni anghenion uniongyrchol gyda chamau gweithredu ataliol mwy hirdymor, er ar hyn o bryd mae'n anodd adnabod agwedd lle y gallai'r Gronfa wneud gwahaniaeth arwyddocaol. Gwnaed sawl awgrym megis targedu cymunedau lleiafrifol neu blant gydag anawsterau dysgu, ond byddai'r rhain yn gofyn am archwilio pellach yn nes ymlaen a chyn gwneud unrhyw ymrwymiadau cadarn.

5.7. Codwyd rhai pryderon am absenoldeb lleisiau plant (yn hytrach na phobl ifanc) a'r potensial i gyrchu safbwyntiau pellach trwy'r Comisiynydd Plant.

5.8. Cytunodd y pwyllgor y dylid ceisio adborth pellach cyn datblygiad y portffolio, unwaith eto gan siarad ag unrhyw aelodau o'r pwyllgor nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod hwn am eu barn. Gwnaethant amlygu y byddai'n fuddiol cael mwy o wybodaeth fanwl am ba adnoddau sydd eu hangen a beth yw'r partneriaethau a'r dulliau rhanbarthol sydd ar waith.

## 6. DIWEDDARIAD AR ADNEWYDDIAD STRATEGOL Y GRONFA

6.1. Nododd y pwyllgor y diweddariad ar adnewyddiad strategol y Gronfa, a hynny ar lafar.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R BWRDD: ER GWYBODAETH

7.1. Nododd y pwyllgor gynnwys yr Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd, gan amlygu lefel y cyflawniad yn ystod y flwyddyn.

7.2. Gan adlewyrchu ar yr adroddiad, gwnaeth y pwyllgor sawl awgrym am bethau i'w hychwanegu i'r adroddiad, sut ellir ei ddefnyddio fel sail i adroddiadau pellach o gynulleidfaoedd allanol a chais am ddadansoddiad pellach (nid ar gyfer yr adroddiad ond ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Cymru diweddarach).

## 8. CYLCH GORCHWYL

8.1. Nododd y pwyllgor y papur cylch gorchwyl gan nodi'r mân addasiadau yn y ddogfen.

## 9. CYNLLUN GWEITHIO YMLAEN

9.1. Nododd y pwyllgor bod y calendr o gyfarfodydd Pwyllgor ar gyfer 2023 yn cael ei gwblhau ac fe fydd yn cael ei anfon atynt cyn gynted ag y bydd hwn ar gael.

9.2. Nododd y pwyllgor y bydd y Diwrnod Strategaeth yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd. Mae'r agenda wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

## 10. ADBORTH O GYFARFODYDD CORFFORAETHOL

10.1. Rhoddodd y Cadeirydd adborth o gyfarfod diweddaraf Bwrdd y DU. Penodwyd 4 aelod newydd i'r bwrdd a 2 Gyfarwyddwr newydd yn Lloegr.

10.2. Nid oedd pwyllgor Ariannu'r DU wedi cyfarfod yn ddiweddar, ond roedd grantiau wedi cael eu dyfarnu'n ddiweddar fel rhan o'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd.

## 11. UNRHYW FUSNES ARALL

11.1. Diweddarwyd y pwyllgor ar yr ymweliadau prosiect diweddar a buan.

11.2. Trafodwyd hyd y cyfarfodydd, yn enwedig os oedd nifer arwyddocaol o bapurau hirach. Gallai rhai opsiynau gynnwys:

i. Cyfyngiadau amser pwyllgor
ii. Ehangu'r cyfarfodydd
iii. Sesiynau cyn-cyfarfod os oes angen